# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## BLAENRAGLENNI GWAITH PWYLLGORAU PWNC ERAILL

### Mater dan sylw

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar flaenraglenni gwaith strategol drafft Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar gyfer y cyfnod hyd at Fai 2003.

### Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried blaenraglenni gwaith y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a amgaewyd yn Atodiad 1 a 2 .

### Cefndir

3. Mae'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 9.9 i bob pwyllgor pwnc gynnal rhaglen waith dreigl dros gyfnod o 12 mis o leiaf, ac i drafod y rhaglen â phwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad cyn hysbysu'r Cynulliad mewn cyfarfod llawn. Dogfen strategol yw'r flaenraglen waith, sy'n edrych yn gyffredinol ar flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y 12 i 18 mis nesaf, ac fe'i hategir gan raglen waith fanylach.

4 Ystyriodd y Pwyllgor raglenni gwaith drafft y Pwyllgor Diwylliant, y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y cyfarfod ar 13 Chwefror.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2002